Llwyddiant i bawb

Cymorth mewn colegau addysg bellach a chwmnïau dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl 16-19 oed gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

...Rhagoriaeth i bawb... …Excellence for all…

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir neu a ddefnyddir gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg oedolion a chymuned;
- partneriaethau pobl ifanc;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- addysg bellach;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau

© Hawlfraint y Goron 2005

Cyhoeddwyd gan:

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

Gellir ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r Arfbais Brenhinol a'r logos adrannol) yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y bod yn cael ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn www.estyn.gov.uk

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn at y rheolwr Cyhoeddiadau yn y cyfeiriad uchod, neu drwy neges e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Cynnwys	Tudalen

1. Cefndir 5

2. Cyflwyniad 6

3. Prif ganfyddiadau 7

4. Safonau cyflawniad 11

5. Anghenion cymorth y dysgwyr 11

6. Ansawdd ac effeithiolrwydd y cymorth y mae'r dysgwyr yn ei gael 13

7. Ansawdd mynediad i gwricwlwm priodol 17

8. Y rhwystrau sy'n atal y dysgwyr hyn rhag cael mynediad i gwricwlwm priodol a chymorth digonol 21

9. Materion allweddol i weithredu arnynt 24

Atodiad 1 27

1 Cefndir

Mae 'Gwell Cymru' yn gosod gwerthoedd craidd cynhwysiad cymdeithasol, cyfle cyfartal a hyrwyddo cymdeithas oddefgar y Cynulliad Cenedlaethol lle caiff amrywiaeth ei werthfawrogi. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu gwneud Cymru'n gwbl gynhwysol ac i wneud ei heconomi a'i chymunedau'n gynaliadwy. Os caiff hyn ei gyflawni, rhaid i'r holl ddysgwyr gael eu cynorthwyo i gyflawni eu potensial mwyaf mewn addysg a hyfforddiant.

Mae'r 'Wlad sy'n Dysgu' a 'Llwybrau Dysgu 14-19' yn cydnabod y gwahanol ddulliau ymagweddau dysgu y mae eu hangen ar wahanol bobl a'r cyfraniadau y gall yr holl bobl eu gwneud i gymdeithas os bu eu dysgu'n llwyddiannus.

Mae cylchlythyr arweiniad Llwybrau Dysgu 14-19, 'Cymorth i Bobl Ifanc', yn gosod y cymorth sy'n cael ei roi yn ei le ar gyfer dysgwyr. Mae hwn yn anelu at roi'r cyngor ac arweiniad y mae eu hangen ar ddysgwyr i wneud dewisiadau da a goresgyn rhwystrau at ddysgu. Bydd y cyngor a'r arweiniad hwn yn 'eu galluogi i werthfawrogi bod eu hiechyd corfforol, cymdeithasol ac emosiynol mor hanfodol i wireddu eu potensial â'u datblygiad deallusol.

Mae 'Ymestyn Hawliau' [1]a'r 'Fframweithiau ar gyfer Partneriaethau'[2] yn gosod hawliau cyffredinol sylfaenol ar gyfer yr holl bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith a chânt eu teilwra i'w hanghenion.

Rhoddodd adroddiadau Tomlinson (1996) a Kennedy (1997) achos cryf dros gyflwyno ddulliau mwy cynhwysol i addysg ac ar gyfer ehangu cyfranogiad grwpiau a dangynrychiolir mewn colegau, gan gynnwys yr holl ddysgwyr.

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 yn canolbwyntio sylw ar wella adnoddau a chyfleusterau a chefnogi a gwarchod yr holl ddysgwyr â namau yn yr holl agweddau ar eu hastudiaethau.

Yn 2002, pleidleisiodd y Cynulliad yn unfrydol i dderbyn dilysrwydd y model cymdeithasol o anabledd a chydnabuwyd yr angen i brif-ffrydio'r egwyddor hon ym mholisïau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Canolbwyntia'r model cymdeithasol hwn ar y rhwystrau a grëwyd gan y gymdeithas y mae pobl anabl yn eu hwynebu, yn hytrach na namau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu, neu faterion iechyd meddwl unigolyn. Crëir y rhwystrau hyn oherwydd bod y sawl sy'n gyfrifol am ddylunio cyfleusterau ac ar gyfer trefnu gweithgareddau heb gydnabod y gofynion personol sy'n deillio o'r nam. Arweinia hyn at bobl anabl yn cael eu heithrio ac yn cael eu hatal rhag cael cyfle cyfartal mewn llawer o feysydd pwysig yn eu bywydau, fel addysg a chyflogaeth.

---

[1] Ymestyn Hawliau: cefnogi pobl ifanc yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002
[2] Arweiniad cynllunio fframwaith trosfwaol plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002

2 Cyflwyniad

Roedd cylch gwaith Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2003-04 yn cynnwys cais ar gyfer arolwg o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr yn y maes rhaglen Medrau Byw yn Annibynnol (gan gynnwys Medrau Cyfathrebu) mewn colegau addysg bellach, gyda phwyslais ar drefniadau cynllunio ar gyfer pontio o addysg bellach i hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r adroddiad hwn ar gael yn www.estyn.gsi.gov.uk

Mae cylch gwaith eleni'n adeiladu ar yr arolwg hwn ac yn canolbwyntio ar ddysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol, rhwng 16 ac 19 oed ym meysydd eraill addysg a hyfforddiant. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gofyn am wybodaeth am ansawdd y cymorth a'r wybodaeth a roddir i'r dysgwyr hyn sy'n eu galluogi i ddysgu ochr yn ochr â'u cymheiriaid ac i elwa'n llawn ar leoliadau'r brif ffrwd.

Mynychodd rai o'r dysgwyr hyn ysgolion arbennig. Cafodd eraill gymorth gan gweithredu gan yr ysgol a mwy neu gweithredu gan yr ysgol ac maent wedi parhau yn eu hysgol prif ffrwd. Gyda chymorth gweithredu gan yr ysgol a mwy a gweithredu gan yr ysgol, derbynia'r dysgwyr gymorth ychwanegol gan eu hathrawon sy'n gweithredu ar gyngor gan y cydlynydd anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol neu'r swyddog AAA a enwir yn yr AALl. Gosodir y trefniadau ar gyfer y cymorth hwn a'r canlyniadau ar gyfer y dysgwr yn y cynllun addysg unigol.

Mae anhawster dysgu, fel a ddisgrifir yn adran 41 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, yn bodoli lle mae unigolyn yn cael mwy o anhawster wrth ddysgu na mwyafrif y bobl o'r un oedran. Hwyrach fod gan ddysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol anghenion ychwanegol hefyd.

Ar ôl nodi'r dysgwyr hyn a'u namau, byddwn, gan mwyaf, yn cyfeirio atynt trwy gydol gweddill yr adroddiad yn gyffredinol fel dysgwyr ac yn canolbwyntio ar sut caiff eu gofynion personol yn hytrach na'u namau eu bodloni. Mae hyn yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd a nodir ar dudalen 2 yr adran gefndir. Fodd bynnag, lle mae mater penodol gallai fod angen nodi nam y dysgwr fel y gellir esbonio'r mater yn well.

O gofio'r sylw priodol i'w gofynion unigol, gall mwyafrif y dysgwyr hyn gael mynediad i'r un lleoliadau addysgol â'u cymheiriaid a gallai nifer gyflawni'r un cymwysterau, er y gallai gymryd fwy o amser iddynt wneud hynny. Cynigia'r adroddiad hwn sylwadau ar y safonau a gyflawnir gan y dysgwyr hyn. Yn ogystal, mae'n nodi ac yn arfarnu'r cymorth a'r arweiniad a gânt mewn colegau addysg bellach, dysgu yn y gweithle ac ysgolion fel y gallant:

- gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant;
- achub mantais ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth; a
- chymryd rhan yn effeithiol ym mywyd eu cymunedau.

Dynoda data ELWa, mewn addysg bellach yn 2002/2003 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae gennym ddata ar ei chyfer), i 10,704 o ddysgwyr gael eu

cofnodi ag anabledd. Cynrychiola hyn ychydig dros 4 y cant o'r holl ddysgwyr. Hawliodd colegau nawdd ychwanegol ar gyfer 824 o ddysgwyr gydag anawsterau dysgu cymedrol a oedd yn astudio ar raglenni'r brif ffrwd. Cynrychiola hyn 0.3 y cant o'r dysgwyr. Mewn dysgu yn y gweithle, dengys data ELWa bod 2,311 o ddysgwyr wedi'u cofrestru ag anabledd ar raglenni dysgu yn y gweithle. Cynrychiola hyn 4 y cant o gyfanswm nifer y dysgwyr. Dynoda cronfa ddata PLASC ELWa ar gyfer Medi 2003 mewn ysgolion bod 26, 541 o ddysgwyr ôl-16 wedi'u cofnodi ag anabledd. O'r dysgwyr hyn, dim ond 151 oedd ag anawsterau dysgu cymedrol. Cynrychiola hyn 0.6% o'r dysgwyr.

2.1 Sail dystiolaeth yr arolwg

Rhwng Gorffennaf a Thachwedd 2004, cynhaliodd Estyn arolwg o'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr hyn a'r cymorth a roddir iddynt yn y ddarpariaeth ôl-16. Gan nad yw mwyafrif y dysgwyr hyn yn aros ymlaen yn yr ysgol, fe wnaethom ganolbwyntio ein sylw ar golegau a chwmnïau dysgu yn y gweithle.

Cynhaliwyd trafodaethau â darparwyr mewn colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gweithle, AALlau a Gyrfa Cymru ynghylch anghenion cymorth y dysgwyr hyn a sut y bodlonir eu hanghenion. Gwnaethom dynnu ar dystiolaeth o adroddiadau arolygiadau Estyn a gwybodaeth o ymweliadau a wnaed gan arolygwyr cyffredinol colegau Estyn.

Yn ystod ein hymweliadau â darparwyr, astudiwyd dogfennau a chynhaliwyd trafodaethau gydag athrawon, dysgwyr, rhieni, cyflogwyr, partneriaid ac asiantaethau allweddol, a rhoddodd pob un ohonynt gryn dipyn o wybodaeth ddefnyddiol i ni. Roedd y dysgwyr yn awyddus i siarad â ni am eu profiadau cadarnhaol, eu cyflawniadau a'u cynlluniau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Darparwyd astudiaeth achos arfer dda gennym yn atodiad 1.

3 Prif ganfyddiadau

Mae safonau cyflawniad yn dda a gwna'r dysgwyr gynnydd yn eu dysgu. Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu hefyd yn dda. Mewn ychydig achosion, mae'n rhagorol. Cefnogir mwyafrif y dysgwyr yn dda ond mae ychydig nad ydynt yn cael y cymorth iechyd neu seicolegol y mae arnynt ei angen. Mae gweithio'n agos gyda rhieni/gofalwyr ac asiantaethau gwirfoddol, ymgynghorwyr Gyrfa Cymru, cyflogwyr, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau allanol eraill yn wannach mewn dysgu yn y gweithle. Mae gormod o rwystrau sylweddol sy'n gallu atal dysgwyr rhag cael mynediad i gwricwlwm priodol a chymorth digonol. Gall y rhwystrau hyn eu hatal rhag integreiddio'n effeithiol i feysydd galwedigaethol colegau ac i ddysgu yn y gweithle. Y canlyniad yw nad yw'r dysgwyr hyn yn aml yn cael cyfle cyfartal ac felly nid ydynt yn cyflawni cystal ag y gallant.

3.1 Safonau cyflawniad

- Yn gyffredinol, mae safonau cyflawniad yn dda a gwna mwyafrif y dysgwyr gynnydd da yn eu dysgu.

3.2 Anghenion cymorth y dysgwyr

- Er mwyn i'r dysgwyr hyn gyflawni'n dda, mae angen iddynt ennill hyder a hunan-barch a gwella'u medrau sylfaenol a'u medrau allweddol. Mae angen gwaith arnynt sy'n cyfateb yn ofalus i'w gallu a thargedau priodol er mwyn symud ymlaen.

- Weithiau, mae angen mwy o amser a chymorth arnynt i gael mynediad i'r cwricwlwm ac i gwblhau eu haseiniadau. Mae angen i'r dysgwyr hyn ddysgu i fodloni terfynau amser a datblygu'r medrau ymchwilio ac astudio sy'n angenrheidiol i gynhyrchu gwaith o safon briodol ar yr amser iawn.

- Er mwyn i rieni/gofalwyr y dysgwyr hyn gael tawelwch meddwl, mae angen iddynt chwarae rhan lawn wrth gynllunio ar gyfer y cymorth y bydd y dysgwyr yn ei gael.

3.3 Ansawdd ac effeithiolrwydd y cymorth y mae'r dysgwyr yn ei gael

- Yn gyffredinol, mae ansawdd y gofal a'r cymorth a gynigir i'r dysgwyr hyn yn dda. Mewn ychydig achosion, mae'n dda iawn. Mae'r dysgwyr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ansawdd y cymorth maent yn ei gael.

- Mae mwyafrif y darparwyr yn ymroi i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu cynnwys yn llawn ac maent yn cydnabod bod cymorth bugeiliol cryf ac effeithiol yn ffactor allweddol wrth sicrhau bod y dysgwyr hyn yn llwyddo.

- Yn y ddarpariaeth orau, caiff y cymorth i ddysgwyr ei fonitro'n ofalus i sicrhau bod y dysgwyr yn cael y cymorth y mae hawl ganddynt ei gael.

- At ei gilydd, mae dysgwyr y mae angen sesiwn gynghori a/neu gymorth seicolegol arnynt yn cael cymorth prydlon a sensitif. Fodd bynnag, weithiau mae darparwyr yn ei chael hi'n anodd rhoi cymorth priodol i ddysgwyr â materion iechyd meddwl. Y rheswm am hyn yw nad yw'r dysgwyr bob amser yn datgelu'r anawsterau hyn cyn ymuno â'u rhaglenni.

- Nid yw dysgwyr ag ymddygiad heriol bob amser yn cael cymorth wrth reoli eu gwylltineb.

- Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr mewn lleoliadau ôl-16, gydag anghenion cymorth iechyd fel ffisiotherapi neu therapi lleferydd, yn cael y cymorth hwn oni bai eu bod yn mynd i golegau arbenigol.

3.4 Pa mor dda mae darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr ac asiantaethau

- Ceir nifer o enghreifftiau da mewn colegau o weithio agos gyda rhieni/gofalwyr ac asiantaethau gwirfoddol, cyflogwyr, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau allanol eraill. Mae hyn yn wannach mewn dysgu yn y gweithle. At ei gilydd, nid yw cysylltiadau rhwng darparwyr dysgu yn y gweithle ac ymgynghorwyr Gyrfa Cymru, ar draws y cwmnïau gyrfaoedd, mor effeithiol ag y dylent fod.

- Nid oes cydweithio â'r Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant a'r Partneriaethau Pobl Ifanc.

3.5 Ansawdd y wybodaeth oedd ar gael i ddysgwyr ar-lein.

- Yn gyffredinol, nid yw ansawdd y wybodaeth a'r cyngor a gynigir ar-lein yn ddigon da. Nid yw ychwaith o fewn cyrraedd rhwydd i'r dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr.

- Mae gan golegau fewnrwydi da iawn sy'n cynnig ystod o wybodaeth a rhaglenni defnyddiol i gefnogi dysgwyr yn eu gwaith cwrs a'u medrau astudio. Mae gwefan Skill yn cynnig y wybodaeth fwyaf cynhwysfawr a defnyddiol ac yn cefnogi gwasanaeth ar gyfer dysgwyr a rhieni. Fodd bynnag, mae rhy ychydig o ddarparwyr yn ymwybodol ohono.

3.6 Ansawdd mynediad i gwricwlwm priodol

- Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu'n dda. Mewn ychydig achosion, mae'n rhagorol. Caiff profiadau dysgu eu cyfateb yn gyffredinol dda i anghenion a diddordebau'r dysgwyr.

- Mae athrawon, ym mhob lleoliad, yn rhoi sylw da i ddatblygu medrau sylfaenol ac allweddol.

- Cynigia mwyafrif y darparwyr ystod dda o raglenni, gan arwain at achredu ar amrywiaeth o lefelau.

- Mae'r dysgwyr yn elwa ar ystod dda o leoliadau gwaith diddorol sy'n eu paratoi nhw'n dda ar gyfer bywyd gweithio.

- Mewn dysgu yn y gwaith, mae'r prif ffocws ar ganlyniadau rhaglen uniongyrchol, fel sicrhau cyflogaeth neu gymhwyster. Rhoddir llai o

sylw i'r angen i ddatblygu diddordebau'r dysgwyr a chynnig gweithgareddau cymdeithasol iddynt.

- Mewn ychydig achosion, nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad heriol yn dda. Ar adegau, mae athrawon yn ansensitif i faterion anabledd.

- Mewn ychydig achosion, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon gofalus i sicrhau bod y gwaith a osodir yn cyfateb i holl alluoedd ac anghenion y dysgwyr. Ar ychydig achlysuron, ceir diffyg her briodol yn y gwaith a osodir.

- Nid yw'r darparwyr yn casglu nac yn gwneud defnydd digonol o ddata ar gyrchfannau a chanlyniadau'r dysgwyr mewn cyflogaeth a hyfforddiant.

3.7 Y rhwystrau sy'n atal y dysgwyr hyn rhag cael mynediad i gwricwlwm priodol a chymorth digonol

- Mae rhwystrau arwyddocaol yn atal y dysgwyr hyn rhag integreiddio'n effeithiol i feysydd galwedigaethol colegau a dysgu yn y gweithle. Golyga hyn nad yw'r dysgwyr hyn yn cael eu hawl i gyfle cyfartal. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud cystal ag y gallant.

- Nid yw llinellau cyfathrebu'n glir ac nid yw cyfnewid gwybodaeth rhwng darparwyr yn effeithiol. Gall hyn olygu nad yw dysgwyr yn cael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo ac y mae ei angen arnynt i lwyddo.

- Mae dysgwyr â datganiadau'n cael y fantais o asesiad trylwyr ac ysgrifenedig o'u hanghenion hyfforddiant gan ymgynghorydd gyrfaoedd. Fodd bynnag, nid dyma'r achos ar gyfer y rhai a leolir ar weithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy.

- Mae'r amser a glustnodir i ddysgwyr ar raglenni Skillbuild yn rhy fyr i alluogi ar gyfer mynd i'r afael â'u holl anghenion. Ychydig ddysgwyr sy'n gallu cyrraedd y cymhwyster medrau sylfaenol newydd o fewn yr amser sydd ar gael.

- Ceir nawdd ac arbenigedd cyfyng ledled Cymru ar gyfer addysgu medrau sylfaenol.

- Gall cyfyngiadau newydd mewn dysgu yn y gweithle ar nifer y cymwysterau y gellir ariannu ar eu cyfer arwain at y dysgwyr yn cael eu cynnwys yn syth ar gyrsiau cymwysterau uwch, yn hytrach na'u caniatáu i weithio'u ffordd trwy lefelau is, mwy priodol, i fagu eu hyder.

- Nid yw ymgynghorwyr gyrfaoedd yn gallu argymell estyniad lle nad yw darparwyr hyfforddiant yn cadw cofnodion cynhwysfawr o'r cymorth ychwanegol a roddir i ddysgwyr ardystiedig. Golyga hyn, mewn rhai achosion, y gellir gwrthod yr amser ychwanegol i'r dysgwyr a'r cymorth

y mae ei angen arnynt i gael mynediad i ddysgu priodol a chyflawni cymwysterau.

- Ceir dryswch ymhlith darparwyr ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y gost o brofi diagnostig ar gyfer dyslecsia.

4 Safonau cyflawniad

Yn gyffredinol, mae safonau cyflawniad y dysgwyr yn dda. Mae hyn oherwydd bod y mwyafrif ohonynt yn cael y cymorth priodol. Mae mwyafrif y dysgwyr yn cwblhau eu cynlluniau dysgu unigol ac yn cael achrediad priodol, er eu bod weithiau'n cymryd mwy o amser i gyflawni hyn na'u cymheiriaid. Yn ogystal, gallai fod angen mwy o gymorth arnynt gan staff na'u cymheiriaid.

Ar y cyfan, gŵyr dysgwyr lle bydd eu cyrsiau yn eu harwain a pha achrediadau byddant yn eu cyrraedd. Mae eu ffeiliau cwrs yn gyffredinol daclus ac wedi'u trefnu'n dda. Mae'r dysgwyr nid yn unig yn ennill cymwysterau galwedigaethol, ond hefyd yn ennill tystysgrifau mewn llythrennedd a rhifedd, TG a medrau allweddol.

Mae llawer o'r dysgwyr yn amlwg yn elwa'n bersonol trwy ddatblygu mwy o hyder, gallu siarad drostynt eu hunain a gweithio'n annibynnol. Maent yn mwynhau eu rhaglenni dysgu, yn cydnabod ac yn falch o'u cyflawniadau. Gwna lawer ohonynt gyfeillion newydd ac maent yn gwella'u bywydau cymdeithasol. Caiff gwelliannau eu nodi gan athrawon a rhieni/gofalwyr ym medrau personol a chymdeithasol y dysgwyr. Yn benodol, mae dysgwyr byddar mewn colegau weithiau'n siarad am ddiwedd i unigedd. Er enghraifft, mewn un coleg, mae dau ddysgwr byddar yn siarad yn uchel ynghylch sut maent wedi elwa ar gwrs iaith arwyddion Prydain ar lefel un. Bellach, gallant gyfathrebu â dysgwyr byddar eraill. Dywedant eu bod yn teimlo bod y byd wedi agor ei ddrws iddynt.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn caffael medrau newydd a ddefnyddiant gartref ac yn eu cymunedau. Er enghraifft, maent yn dysgu dylunio dolenni cyswllt ar dudalennau gwe i ymchwilio i ddiddordebau personol fel darganfod am geffylau. Maent yn dysgu gwneud cyflwyniadau PowerPoint. Er enghraifft, gwnaeth un dysgwr gyflwyniad o'r enw 'Dyma fi', a gyflwynodd i'r dysgwyr eraill fel rhan o'i gwrs TG a busnes lefel sylfaen. Mewn celf a dylunio, mae'r dysgwyr ar Ddiploma Cyntaf BTEC yn dysgu beirniadu eu gwaith eu hunain i baratoi ar gyfer ysgrifennu arfarniadau cwrs. Gwrandawodd un dysgwr yn astud ar esboniad yr athro ac yna llwyddodd i ddefnyddio dyfrlliw. Yn y cwrs TG a busnes lefel sylfaen, defnyddia'r dysgwyr fwydlenni siopau cludfwyd lleol, i gynllunio a chostio'n gywir pryd o fwyd ar gyfer achlysur arbennig. Mae dysgwyr sy'n gwneud BTEC Lletygarwch a Thwristiaeth ar lefel 1, yn trefnu taith i barc thema dramor. Gwnânt ddefnydd da o amserlenni, gwefannau ac asiant teithio'r coleg i ymchwilio i'w prosiect.

Gwna mwyafrif y dysgwyr gynnydd da yn eu dysgu. Er enghraifft, mae dysgwyr yn y gweithle'n symud ymlaen yn dda trwy eu CGCau. Gwyddant ba unedau maent wedi'u cyflawni a beth y mae'n rhaid iddynt wneud o hyd a

symudant ymlaen i gael cyflogaeth.

5 Anghenion cymorth y dysgwyr

Mae'r dysgwyr yn ein harolwg yn aml wedi cael cryn dipyn o gymorth yn eu hysgolion. Mae llawer ohonynt wedi elwa ar gymorth un-i-un. Fodd bynnag, maent yn aml wedi mynd yn or-ddibynnol ar y cymorth ac yn cael anhawster wrth weithio'n annibynnol. Mewn colegau a dysgu yn y gweithle, mae disgwyl i'r dysgwyr drefnu eu hunain, i gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith eu hunain ac i fodloni terfynau amser. Maent yn ymgymryd ag aseiniadau sy'n gofyn iddynt ymchwilio i wybodaeth a'i chyflwyno. Mae aelodau eraill o'u grŵp galwedigaethol yn ymdopi â hyn yn gyffredinol dda. Gall y dysgwyr yn ein harolwg hefyd wneud hyn, ond weithiau mae angen mwy o amser a chymorth arnynt i wneud eu gwaith a chwblhau eu haseiniadau. Mae angen arweiniad gofalus arnynt fel eu bod yn dysgu bodloni terfynau amser a datblygu'r medrau ymchwilio ac astudio angenrheidiol i gynhyrchu gwaith o safon briodol ac ar yr amser iawn.

Mae angen cyfleoedd ar lawer o'r dysgwyr hyn i ddatblygu a gwella eu medrau sylfaenol a'u medrau allweddol. Er enghraifft, mae angen iddynt fod yn fwy hyderus wrth weithio gydag eraill a deall sut y gallant wella'u dysgu eu hunain. Mae'r medrau hyn yn hanfodol, os ydynt am symud ymlaen yn llwyddiannus i gyflogaeth.

Yn ogystal, mae gan lawer o'r dysgwyr ddiffyg hyder a diffyg hunan-barch. Gall symud ymlaen o'r ysgol fod yn gam anodd. Rhaid i athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu fagu hyder a hunan-barch y dysgwyr fel y gall y dysgwyr hyn gyflawni yn eu cyrsiau.

Mae'r dysgwyr hyn yn aml wedi elwa ar berthnasoedd agos a chefnogol gyda'u hathrawon, yn enwedig mewn ysgolion arbennig, ac maent wedi cael cymorth gydag anawsterau personol. Maent yn aml wedi gweithio mewn grwpiau bach ac wedi cael grŵp cymheiriaid cefnogol ag anghenion tebyg. Golyga hyn eu bod nhw, a'u rhieni/gofalwyr, yn aml yn bryderus iawn am y posibilrwydd o adael y lefel hon o gymorth y tu ôl iddynt. Mae'n bwysig bod y darparwyr yn cydnabod y pryder hwn, yn cynnig sicrwydd ac yn cysylltu'n dda ag ysgolion y dysgwyr. Mae angen i'r darparwyr gynnwys y dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr yn eu trafodaethau a chynllunio ar gyfer integreiddio'r dysgwyr yn llwyddiannus i'w cyrsiau galwedigaethol.

Mae angen rheolau ac arweiniad clir ar ddysgwyr nad ydynt yn ymddwyn yn dda i'w cynorthwyo i ddysgu i reoli eu hymddygiad. Mewn rhai achosion, mae angen iddynt gael mynediad i gymorth seicolegol a chynghori ac mewn rhai achosion hyfforddiant rheoli gwylltineb.

Weithiau, mae angen cymorth ar ddysgwyr fel y gallant gael eu cynnwys yn llawn yn yr holl weithgareddau ym mhob sesiwn. Yn eu hysgolion, mae llawer o'r dysgwyr hyn wedi dod i arfer â gweithio tuag at dargedau clir a phriodol o

fewn cynllun addysg unigol ac wedi elwa ar hyn. Mae'n bwysig bod lleoliadau ôl-16 yn defnyddio ac yn adeiladu ar y profiad hwn i gynnig parhad.

Mae angen i'r holl athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu ddeall sut i gyfateb gwaith i allu a gosod targedau priodol er mwyn i'r dysgwyr hyn wneud cynnydd.

6 Ansawdd ac effeithiolrwydd y cymorth y mae dysgwyr yn ei gael

6.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd y cymorth

At ei gilydd, mae ansawdd y gofal a'r cymorth a gynigir i ddysgwyr yn dda. Mewn ychydig achosion, mae'n dda iawn. Mae'r dysgwyr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ansawdd y cymorth a gânt. Maent yn elwa ar weithio gydag athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu sy'n rhoi sylw da i'w gofynion unigol, yn gosod disgwyliadau uchel ac yn sefydlu perthnasoedd hynod dda a chefnogol gyda nhw. Mae mwyafrif y darparwyr yn ymroi i arfer gynhwysol ac yn cydnabod bod gofal bugeiliol cryf ac effeithiol yn ffactor allweddol wrth sicrhau llwyddiant y dysgwyr hyn.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn rhoi cymorth da i ddysgwyr o ran medrau astudio i'w cynorthwyo i gyflawni gwell canlyniadau. Er enghraifft, mae un gyfadran diwydiannau gwasanaeth yn treialu pecyn medrau astudio defnyddiol. CD Rom yw hwn a gyflwynir trwy diwtorialau wythnosol. Mae'n ymdrin â medrau rheoli amser, darllen, cymryd nodiadau, defnyddio'r llyfrgell, ysgrifennu aseiniadau, cyflwyniadau ac ymchwilio.

Mae llawer o'r dysgwyr yn cael cyfleoedd da i wella'u medrau personol a chymdeithasol a'u hyder trwy fynd ar gyrsiau byr fel rhaglenni ysgogi Sefydliad Pacific a chwblhau cymwysterau fel Dyfarniadau'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Gwobrau (ASDAN) Workright. Fodd bynnag, ar achlysuron, mae dysgwyr eisoes wedi cwblhau rhaglenni Sefydliad Pacific gyda darparwr arall neu yn yr ysgol. Nid yw hyn yn darparu gwerth da am arian.

Mae medrau bywyd yn rhan annatod o gyrsiau Skillbuild mewn dysgu yn y gweithle. Er enghraifft, mae'r dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r ffôn, llenwi ffurflenni a sut i drefnu cyllideb. Mae hyn yn eu paratoi'n dda i fyw yn annibynnol.

Yn aml, mae'r athrawon yn rhoi arweiniad a chymorth da iawn i ddysgwyr ag anawsterau personol fel tai, hawlio budd-daliadau, cynnal hylendid personol a materion ymddygiad. Maent yn annog dysgwyr i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael i gaffael medrau sylfaenol ac allweddol.

Mewn un coleg, mae athrawon yn anelu at gyfateb y cymorth a gynigir i ddysgwyr yn ystod eu tymor cyntaf i'r hyn a gawsant yn yr ysgol. Gwna'r athrawon hyn er mwyn rhoi tawelwch meddwl i rieni/gofalwyr sy'n bryderus

am golli'r datganiad o anghenion addysgol arbennig. Wrth i ddysgwyr ddod yn fwy sicr, mae'r coleg yn eu tynnu i ffwrdd o'r cymorth yn raddol.

Yn y ddarpariaeth orau, caiff anghenion cymorth y dysgwyr eu monitro'n ofalus i sicrhau bod y dysgwyr yn cael y cymorth y mae ganddynt hawl i'w gael. Yn gyffredinol, mae'r dysgwyr yn y colegau a dysgu yn y gweithle yn cael gwybodaeth dda am bolisïau cyfle cyfartal eu darparwyr fel rhan o'u cyfnod sefydlu. Yn y ddarpariaeth orau, ailymwelir â'r polisïau hyn yn rheolaidd fel bod dysgwyr yn cynnal dealltwriaeth glir o'r materion.

At ei gilydd, caiff y dysgwyr y mae angen sesiwn gynghori a/neu gymorth seicolegol arnynt gymorth prydlon a sensitif. Gwna'r darparwyr ddefnydd da o gynghori mewnol, asiantaethau allanol, fel y gwasanaethau cymdeithasol, a gwasanaethau seicoleg addysgol i fodloni anghenion y dysgwyr. Mae nifer o ddarparwyr yn sefydlu cynlluniau cyfeillio neu fentora i gefnogi'r dysgwyr hyn. Fodd bynnag, mae dysgwyr gyda materion iechyd meddwl yn aml yn amharod i ddatgelu hyn mewn cyfweliad, efallai'n rhannol yn sgil amgyffrediad negyddol y gymdeithas ac ofn ynghylch iechyd meddwl. Hwyrach eu bod hefyd yn poeni am gael eu gwrthod gan y darparwr. Golyga hyn na all y darparwr achub y blaen ar broblemau neu gynnig y cymorth angenrheidiol nes bod y dysgwr mewn anhawster amlwg. Lle mae'r dysgwyr yn cyflwyno ymddygiad eithriadol o heriol, mae'n aml yn anodd i ddarparwyr gael mynediad i gymorth i helpu'r dysgwyr i reoli'u wylltineb. Fodd bynnag, mae mwy o ddarparwyr yn cynnig hyfforddiant priodol i'w staff fel y gallant ddod yn fwy medrus mewn rheoli ymddygiad effeithiol.

Mae dysgwyr a fynychodd ysgolion arbennig yn aml wedi cael cymorth ffisiotherapi a therapi lleferydd ac iaith yn fewnol. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, nid yw'r ysgolion yn trosglwyddo'r wybodaeth bwysig hon am anghenion iechyd y dysgwyr. Yn ogystal, nid yw lleoliadau ôl-16 ac eithrio colegau arbenigol yn parhau â'r cymorth hwn. Mae hyn yn sgil diffyg trefniadau ar gyfer ariannu cymorth iechyd, addasrwydd adeiladau a'r drafferth wrth gynnwys therapïau i mewn i amserlen y coleg.

6.2 Pa mor dda mae darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr

Gweithia ysgolion a cholegau'n agos gyda rhieni a gofalwyr. Mewn rhai achosion, maent yn sefydlu perthynas ragorol ac ymgynghorir yn llawn â'r rhieni a rhoddir gwybodaeth lawn iddynt. Mewn colegau ac ysgolion, fel rheol mae'r rhieni a'r gofalwyr yn mynychu adolygiadau, yn cael adroddiadau ac yn mynychu nosweithiau agored i drafod cynnydd y dysgwyr.

Yn gyffredinol, mae'r darparwyr yn cydnabod y gall rhieni fod o gymorth mawr, am fod ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion a galluoedd penodol y dysgwr. Fodd bynnag, ni wna'r darparwyr dysgu yn y gweithle ddefnydd digonol o wybodaeth gan rieni a gofalwyr i lywio'u cynllunio ar gyfer y dysgwr. Yn ddiweddar, nododd un darparwr dysgu yn y gweithle yr angen i gynnwys rhieni/gofalwyr. Mae'n adolygu trefniadau presennol i weld sut y gallai gynnwys rhieni/gofalwyr yn fwy. Mae hwn yn ddatblygiad defnyddiol.

6.3 Pa mor dda mae darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill

Ceir nifer o enghreifftiau da o weithio agos gydag asiantaethau allanol. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiadau â Gyrfa Cymru ar draws y cwmnïau dysgu yn y gweithle bob amser cystal ag y dylent fod. Nid oes cydweithio gyda'r Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant (CCAH) a'r Partneriaethau Pobl Ifanc (PPlau). Yn aml, mae'n rhaid aros yn hir am gymorth gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS).

Gyrfa Cymru
Yn gyffredinol, mae dysgwyr mewn ysgolion yn cael cymorth da gan ymgynghorwyr Gyrfa Cymru. Mynycha ymgynghorwyr adolygiadau pontio ac yna maent yn parhau i fod ynghlwm fel bo'r angen i arwain a chefnogi dysgwyr wrth ddod o hyd i brofiad gwaith a lleoliadau hyfforddiant ac wrth iddynt symud ymlaen i gyrsiau ôl-16. Yn gyffredinol, mae ymgynghorwyr Gyrfa Cymru yn cynnal cyswllt da gyda rhieni/gofalwyr ac yn rhoi cyngor a chymorth defnyddiol iddynt ar ddewis opsiynau pellach. Er bod llawer o ddarparwyr, yn enwedig ysgolion a cholegau, yn gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru, mae gormod o achosion lle nad yw'r bartneriaeth yn gweithio mor effeithiol ag y dylai wneud. Mae partneriaethau rhwng darparwyr dysgu yn y gweithle ôl-16 a Gyrfa Cymru yn anwastad. Golyga hyn nad yw rhai dysgwyr yn cael y cymorth y mae hawl ganddynt ei gael.

Yn gyffredinol, mae colegau'n cael atgyfeiriadau clir a llawn gwybodaeth gan Gyrfa Cymru. Mewn ymateb i ofynion Deddf Dysgu a Sgiliau, mae ymgynghorwyr gyrfaoedd bellach yn llunio crynodebau clir (Cynlluniau Hyfforddiant a Medrau) o anghenion y dysgwyr sydd wedi cael datganiad o anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol. Cyflwynwyd yr asesiadau hyn ar gyfer y grŵp o ymadawyr ysgol a oedd yn symud ymlaen i addysg bellach yn 2004. Rhoddant ystyriaeth dda i asesiadau blaenorol yr ysgolion, asesiadau seicolegwyr addysgol ac asesiadau arbenigwyr iechyd ac addysg eraill. Mae'r asesiadau hyn wedi gwella'n sylweddol ansawdd y cyfathrebu am anghenion y dysgwyr rhwng ymgynghorwyr gyrfaoedd a darparwyr addysg bellach. Mae ymgynghorwyr gyrfaoedd yn mynychu colegau'n rheolaidd ac maent ar gael yn hawdd i'r dysgwyr. Fel rheol, mae cyngor gan ymgynghorwyr gyrfa arbenigol ar gael ar gais. Mewn un coleg, mae ymgynghorwyr Gyrfa Cymru'n darparu diwrnod gwybodaeth i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr. Yn y coleg hwn, mae'r ymgynghorwyr hyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am faterion fel hawliau cyflogaeth a chyfrifoldebau. Derbynia'r dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr gyhoeddiadau defnyddiol a deniadol.

Ychydig iawn o ddarparwyr hyfforddiant sydd wedi manteisio eto ar y Cynlluniau Hyfforddiant a Medrau. Y rheswm am hyn yw am fod mwyafrif y dysgwyr yn symud ymlaen yn gyntaf i addysg bellach cyn mynd ymlaen i ddysgu yn y gweithle.

Lle mae gweithio mewn partneriaeth rhwng Gyrfa Cymru a darparwyr yn dda, gwna ymgynghorydd Gyrfa Cymru ymweliadau rheolaidd â'r darparwr. Lle

mae'r dysgwyr eisoes mewn cyflogaeth ac yn cael anawsterau, nid yw rhai ymgynghorwyr Gyrfa Cymru bob amser yn cynnig cymorth yn syth. Ar adegau, mae ymgynghorwyr gyrfaoedd yn cyfeirio dysgwyr sydd am weithio mewn meysydd galwedigaethol penodol at ddarparwyr hyfforddiant nad ydynt yn cynnig y maes galwedigaethol hwnnw.

Cyflogwyr
Gweithia'r darparwyr yn gyffredinol dda gyda chyflogwyr. Ceir arwyddion cynnar bod cysylltiadau'n cael eu sefydlu'n dda trwy bartneriaethau o fewn y rhwydweithiau dysgu 14-19 oed lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd profiad gwaith ac ehangu'r cwricwlwm ar gyfer y dysgwyr hyn. Er enghraifft, mae ysgolion mewn un awdurdod yn datblygu cyrsiau mewn adeiladu mewn partneriaeth â Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu.

Mae un coleg wedi sefydlu grwpiau ffocws profiad gwaith. Mae'r rhain yn rhoi cyfle da i gyflogwyr lleol gyfarfod â staff y coleg. Defnyddia staff y coleg y cyfarfodydd hyn fel fforwm defnyddiol i archwilio a mynd i'r afael â materion profiad gwaith. Mae un darparwr dysgu yn y gweithle yr awdurdod lleol wedi sefydlu cysylltiadau da gydag adrannau eraill, fel yr adran dai, i nodi cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer eu dysgwyr.

CCAH
At ei gilydd, nid yw cysylltiadau'r darparwyr â CCAH yn gynhyrchiol. Er y caiff mwyafrif y darparwyr eu cynrychioli ar eu CCAH lleol, mae trafodaethau'n tueddu i ganolbwyntio ar faterion cyffredinol am ddarpariaeth cyfleoedd dysgu ôl-16 amser llawn yn lleol. Nid oes llawer o CCAH wedi trafod yn benodol y ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn. Mae rhai darparwyr dysgu yn y gweithle yn canfod bod agenda CCAH yn cael ei llywio i raddau helaeth gan ddiddordebau'r ysgolion.

Partneriaethau Pobl Ifanc
Nid oes llawer o weithio agos gyda Phartneriaethau Pobl Ifanc. Dangosodd un awdurdod lleol ymrwymiad i sicrhau y caiff materion eu trafod trwy wneud yr anghenion a'r ddarpariaeth i fodloni'r anghenion hynny ar gyfer y dysgwyr hyn yn eitem ar yr agenda.

Gwasanaethau Cymdeithasol
Lle bo angen, gweithia'r darparwyr yn dda gyda'u hadran gwasanaethau cymdeithasol lleol i gynnig cymorth ychwanegol. Er enghraifft, gwna un coleg ddefnydd da o swyddogion y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am namau ar y clyw a'r golwg i gefnogi dysgwyr unigol. Mae'r swyddogion hyn hefyd yn mynychu adolygiadau coleg, yn cynnig cyfarpar defnyddiol ac yn sefydlu diwrnodau gwybodaeth ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd. Gwnaethant gyfraniadau gwerthfawr at godi ymwybyddiaeth staff y coleg a'u dealltwriaeth o faterion anabledd.

Asiantaethau Gwirfoddol
Mae gan y colegau berthynas dda gydag asiantaethau gwirfoddol i gael mynediad i'r cymorth priodol ar gyfer dysgwyr. Er enghraifft, gwna un coleg ddefnydd da o weithiwr maes lleol Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar

i gwblhau asesiad amgylcheddol llawn er mwyn nodi'r cyfarpar a'r cyfarpar arwyddion y mae ar ddysgwyr eu hangen. Mae gan goleg arall gysylltiadau da gyda'r Gymdeithas Awtistiaeth leol ac mae'n defnyddio gweithwyr maes mewn digwyddiadau datblygu staff y coleg. Mae'r colegau wedi datblygu perthynas gref â Scope, Epilepsy Cymru, Agoriad yng Ngwynedd ac Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru. Fodd bynnag, yn gyffredinol ni wna darparwyr dysgu yn y gweithle ddigon o ddefnydd o asiantaethau gwirfoddol.

Adrannau Tai
Mae gan ychydig ddarparwyr gysylltiadau da â'r adrannau hyn fel y gallant gefnogi dysgwyr digartref neu ddysgwyr y gofelir amdanynt gyda'u hanghenion tai.

Gwasanaethau iechyd a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)
Defnyddia ychydig ddarparwyr eu gwasanaethau iechyd meddwl lleol i gynnig sesiynau i ddysgwyr ar faterion fel cyffuriau, iechyd rhywiol a byw yn iach. Mae'r darparwyr yn aml yn teimlo bod gan CAMHS restr aros hir. Golyga hyn na allant gael cymorth amserol ar gyfer dysgwyr gydag anawsterau iechyd meddwl.

6.4 Ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i ddysgwyr ar-lein.

Mewn ychydig ddarparwyr, mae gan ddysgwyr fynediad i'r e-bost a'r Rhyngrwyd. Mae gan golegau fewnrwydi da iawn. Cynigia'r rhain wybodaeth o ansawdd da a rhaglenni defnyddiol i gefnogi dysgwyr yn eu gwaith cwrs ac i ddatblygu eu medrau astudio. Fodd bynnag, prin y mae dysgwyr yn cael mynediad i wybodaeth o'r Rhyngrwyd. Y rheswm am hyn yw mai ychydig iawn o wybodaeth a chyngor defnyddiol a gynigir iddynt ar y Rhyngrwyd. Nid yw'r hyn sydd ar gael, sy'n gofyn am lefelau uchel o lythrennedd, yn ysgogol i'r llygad ac felly nid yw o fewn cyrraedd rhwydd i'r dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr. Ychydig iawn a geir yn y Gymraeg.

Cynigia wefan Skill y gwasanaeth gwybodaeth a chyngor mwyaf cynhwysfawr a defnyddiol ar gyfer dysgwyr a rhieni. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddarparwyr sy'n ymwybodol ohono. Ychydig iawn o'r staff a'r dysgwyr y siaradwyd â nhw yn ystod ein hymweliadau oedd wedi'i defnyddio. Caiff y safle ei labelu'n glir. Gall dysgwyr gael mynediad i daflenni ffeithiau defnyddiol a chlir, cyngor a dolenni cyswllt i asiantaethau cymorth cenedlaethol a lleol. Fodd bynnag, mae adran Cymru'r safle'n llai defnyddiol o gymharu â gweddill y safle. Nid yw'r safle ar gael yn ddwyieithog ac nid yw'n adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr.

7 Ansawdd mynediad i gwricwlwm priodol

7.1 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu'n dda. Mewn ychydig achosion mae'n rhagorol. Ceir rhai enghreifftiau da iawn o aseiniadau realistig ac ystyrlon sy'n ymwneud â bywydau ac anghenion y

dysgwyr. Mae'r aseiniadau hyn, yn eu meysydd galwedigaethol, o ddiddordeb i'r dysgwyr. Maent yn paratoi dysgwyr yn dda i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant, yn cymryd mantais o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth ac yn cymryd rhan yn effeithiol ym mywyd eu cymunedau. Fodd bynnag, nid yw'r darparwyr yn casglu data ar gyrchfannau'r dysgwyr a'r canlyniadau mewn cyflogaeth a hyfforddiant nac yn gwneud digon o ddefnydd ohono. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r staff fonitro pa mor dda mae'r dysgwyr yn symud ymlaen a pha mor dda maent yn paratoi'r dysgwyr i gyfateb i anghenion y cyflogwyr.

Lle mae addysgu, hyfforddi ac asesu'n dda neu'n well, mae athrawon yn defnyddio asesu trylwyr i nodi anghenion y dysgwyr ac i lywio eu cynlluniau dysgu unigol. Golyga hyn y gallant gyfateb gwaith yn ofalus i alluoedd y dysgwyr a dyfeisio adnoddau wedi'u teilwra. Gan weithio gyda'r dysgwr, maent yn adolygu cynnydd yn rheolaidd ac yn cytuno ar dargedau realistig, ond heriol ar gyfer gwelliant. Mewn un achos, gwna'r athrawon ddefnydd da o'r un templed safonol ar gyfer cynlluniau gwersi ar draws y ddarpariaeth. Mae'r templed yn gofyn i'r athro ddangos sut bydd ef/hi yn cyfateb gwaith i alluoedd unigol y dysgwyr. Golyga hyn y bydd yr holl athrawon yn cael eu hatgoffa o'r angen am hyn a gellir monitro eu trefniadau.

Mewn colegau lle mae'r addysgu fwyaf effeithiol, rhoddir pwyslais cryf ar yr holl athrawon yn cymryd cyfrifoldeb dros wella medrau sylfaenol ac allweddol eu dysgwyr. Gwna'r colegau hyn ddefnydd da iawn o gynorthwywyr cymorth dysgu yn y dosbarth. Mae ychydig golegau wedi gwneud dechrau da wrth newid yr amgyffrediad bod cynorthwywyr cymorth dysgu yno i ddelio ag anghenion cymorth unigol fel y gall yr athro addysgu gweddill y grŵp, yn hytrach na'r athro'n gorfod cyfateb gwaith i anghenion yr holl ddysgwyr. Yn y colegau hyn, mae'r athrawon yn ogystal â'r cynorthwywyr cymorth dysgu o fewn cyrraedd yr holl ddysgwyr. Fodd bynnag, mae llawer mwy o waith i'w wneud. Yn y sesiynau gorau, gweithia'r athro a'r cynorthwyydd cymorth dysgu fel tîm ac mae'r cynorthwywyr cymorth dysgu'n cefnogi dysgwyr yn y grŵp yn ogystal â'r dysgwr unigol. Golyga hyn bod dysgwyr y mae angen cymorth arnynt yn teimlo'n llai ar wahân ymhlith eu cymheiriaid. Fodd bynnag, mae'n anodd recriwtio cynorthwywyr cymorth dysgu sy'n medru'r Gymraeg.

Ceir enghreifftiau da o athrawon yn defnyddio cymorth technegol yn dda i ehangu cyfleoedd y dysgwyr a'u galluogi i gymryd rhan yn llawn mewn dysgu ac yn y gweithle. Mae'r rhain yn cynnwys dolenni clyw, meddalwedd arbenigol a dictaffonau.

Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn ofalus i osod gwaith ar fedrau allweddol yng nghyd-destun y maes galwedigaethol. Er enghraifft, mewn un cwrs gofal anifeiliaid, ar lefel sylfaen, gweithia'r dysgwyr ar ymarfer cyfrif stoc mewn siop anifeiliaid anwes. Defnyddia'r athro'r cyfle hwn i esbonio system ddegol rhifau ac i roi ymarfer i'r dysgwyr mewn paratoi siartiau bar.

Yn gyffredinol, gwna darparwyr dysgu yn y gweithle ddefnydd da o asesiad cychwynnol yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ac maent yn ymgymryd â

diagnosis pellach pan fydd angen. Mewn un darparwr, mae'r asesiadau hyn yn llywio proffil personol defnyddiol. Mae hyn yn nodi anghenion dysgu ychwanegol y dysgwyr ac a oeddent yn meddu ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig yn y gorffennol. Defnyddia darparwr arall addysgu tîm yn dda i wella ansawdd y cyflwyno a'r cymorth a gynigir i ddysgwyr. Mae'r dysgwyr hefyd yn cael cymorth un-i-un a chymorth cymheiriaid yn y dosbarth. Er enghraifft, mewn ymarfer lle paratôdd y dysgwyr gyflwyniadau, defnyddiodd yr athro aelodau eraill o'r grŵp i roi cyngor, cymorth ac anogaeth.

Yn aml, gwna darparwyr dysgu yn y gweithle drefniadau hyblyg i weddu i ofynion personol y dysgwyr. Er enghraifft, trefnu cludiant i leoliadau gwaith, a dod o hyd i nawdd i ddarparu technoleg gynorthwyol.

Mewn ychydig achosion, nid yw'r athrawon yn rheoli ymddygiad heriol yn dda. Ar adegau, mae'r athrawon yn ansensitif i faterion anabledd, fel yr angen i wynebu'r dosbarth wrth siarad â grwpiau sy'n cynnwys dysgwyr byddar.

7.2 Pa mor dda mae eu profiadau dysgu'n bodloni anghenion a diddordebau'r dysgwyr?

Caiff profiadau dysgu eu cyfateb yn gyffredinol dda i anghenion a diddordebau'r dysgwyr. Yn aml, mae'r addysgu'n bodloni anghenion y dysgwyr trwy fod yn hyblyg, yn berthnasol ac yn ymatebol i'w hanghenion unigol ac anghenion y grŵp. Fodd bynnag, mewn colegau a lleoliadau dysgu yn y gweithle, ceir ychydig achosion lle nad yw'r athrawon yn ofalus wrth sicrhau bod y gwaith a osodir yn cyfateb i ystod lawn o alluoedd ac anghenion y dysgwyr. Ar ychydig achlysuron, nid yw'r gwaith a osodir yn ddigon heriol.

Yn gyffredinol, cynigia'r athrawon gyfleoedd da i'r dysgwyr archwilio a thrafod meysydd o ddiddordeb iddynt. Er enghraifft, mewn peirianneg sylfaenol lle mae'r dysgwyr yn gweithio tuag at uned RhCA mewn cyfathrebu, mae eu gwaith cwrs yn golygu ysgrifennu llythyr i ofyn am gyfleoedd cyflogaeth mewn cwmni peirianneg lleol. Mae'r dysgwyr yn paratoi ar gyfer y gweithgaredd hwn trwy weithio mewn parau i brawf ddarllen dau lythyr gwahanol ar gyfer yr un swydd. Rhyngddynt, maent yn penderfynu pa berson fyddent yn ei gyflogi.

Mae rhai colegau yn datblygu rhaglenni ar gyfer dysgwyr sy'n medru'r Gymraeg i wella'u medrau yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, mewn dysgu yn y gweithle, mae hyn yn ddigwyddiad prin.

7.3 Ystod yr achredu priodol sydd ar gael.

Cynigia fwyafrif y darparwyr ystod dda o raglenni, gan arwain at achredu ar amrywiaeth o lefelau. Mewn tipyn o'r ddarpariaeth, caiff yr achredu hwn ei ymestyn o lefel cyn-mynediad i gyrsiau yn lefel 3. Yn y ddarpariaeth orau, mae'r athrawon yn cydnabod nad oes un corff dyfarnu unigol sy'n gwasanaethu holl anghenion y dysgwyr hyn. Mae'r athrawon yn cymryd gofal i ddod o hyd i gymwysterau priodol, neu unedau ynddynt, sy'n cynnwys digon o gamau cyflawniad bach i ysgogi dysgwyr.

Fodd bynnag, gall cyrsiau'r maes galwedigaethol mwyaf poblogaidd gael eu gordanysgrifio. Er mwyn bodloni disgwyliadau ELWa, mae'n haws i'r colegau gymryd dysgwyr y maent yn hyderus y byddant yn sicrhau'r cymhwyster llawn. Gallai hyn weithio yn erbyn dysgwyr sy'n dymuno ymrestru ond hwyrach na fyddant yn gallu cwblhau'r cymhwyster cyfan.

Yn ogystal, mae'r darparwyr yn hyblyg wrth alluogi mwy o amser i ddysgwyr gwblhau eu dyfarniadau, pan fydd angen.

7.4 Pa mor dda mae'r dysgwyr hyn yn cael mynediad i leoliadau gwaith a gweithgareddau yn eu cymuned

Mae'r dysgwyr yn elwa ar ystod dda o leoliadau diddorol. Mae cwmnïau Gyrfa Cymru yn aml yn cymryd rhan wrth nodi'r lleoliadau hyn. Mae gan rai colegau staff arbenigol i helpu'r dysgwyr i gael profiad gwaith. Golyga hyn fod gan y dysgwyr well mynediad i leoliadau gwaith priodol. Er enghraifft, creodd un coleg y swydd 'swyddog lleoliad gwaith' ar gyfer dysgwyr anabl, a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Fodd bynnag, nawdd tymor byr yw hwn ac mae gan y coleg ofidiau am gynaliadwyedd y gwasanaeth pwysig hwn.

Lle mae'n anos lleoli'r dysgwyr, gwna'r darparwyr ddefnydd da yn aml o'u cyfleusterau eu hunain, er enghraifft tai bwyta mewnol, asiantaethau teithio ac ardaloedd derbynfa. Fel rheol, cynigia'r amgylcheddau hyn fwy o amddiffyniad a chymorth i'r dysgwyr nag y byddent yn eu profi mewn lleoliadau gwaith gyda sefydliadau allanol. Lle mae darparwyr dysgu yn y gweithle yn rhannau o sefydliadau mwy o faint, er enghraifft cangen hyfforddi'r awdurdodau lleol, maent yn aml yn cymryd mantais o gyfleoedd i leoli dysgwyr mewn rhannau eraill o'r sefydliad partner.

Lle bo'n bosibl, mae'r dysgwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith i gyfateb i'w dyheadau. Fodd bynnag, ar rai achlysuron, gall eu dyheadau fod yn afrealistig. Yn yr achosion hyn, ceir cymorth da gan y staff. Gyda'i gilydd, mae'r staff a'r dysgwyr yn nodi ac yn trafod opsiynau mwy priodol.

Yn aml, mae'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith codi arian a gwaith amgylcheddol.

7.5 Pa mor dda mae'r dysgwyr hyn yn cael mynediad i weithgareddau cymdeithasol

Mae dysgwyr mewn ysgolion a cholegau yn fwy medrus wrth gael mynediad i weithgareddau cymdeithasol na'r rhai dysgu yn y gweithle. Y rheswm am hyn yw bod ysgolion a cholegau yn sefydliadau mwy o faint yn gyffredinol ac maent yn aml yn chwarae rhan bwysicach ym mywyd cymdeithasol y gymuned nag y mae mwyafrif y darparwyr dysgu yn y gweithle. Mae'r gweithgareddau cymdeithasol hyn yn cynnwys cynhyrchiadau drama, ymweliadau â theatrau, amgueddfeydd ac orielau celf a digwyddiadau

chwaraeon. Ar yr ymweliadau hyn, mae'r dysgwyr yn cael cyfleoedd da i ymarfer eu medrau cymdeithasol.

Er bod athrawon dysgu yn y gweithle yn cydnabod yr angen i annog dysgu gydol oes a datblygu diddordebau'r dysgwyr, rhoddir blaenoriaeth isel i'r rhain o gymharu â chanlyniadau syth rhaglenni, fel sicrhau cyflogaeth neu ennill cymhwyster.

7.6 Pa mor dda mae'r dysgwyr hyn yn cael mynediad i gymorth gyda medrau sylfaenol ac allweddol

Yn gyffredinol, mae medrau sylfaenol ac allweddol yn rhan bwysig o'r cwricwlwm ar gyfer y dysgwyr hyn. Mae'r athrawon yn rhoi sylw da i ddatblygu'r medrau hyn. Mewn rhai darparwyr, caiff medrau allweddol a sylfaenol eu hintegreiddio'n llawn i'r holl waith galwedigaethol. Er enghraifft, roedd dysgwr mewn coleg yn gallu deall a chymhwyso ffracsiynau am y tro cyntaf, ar ôl dysgu sut y'u defnyddir yn y cyd-destun galwedigaethol. Mae bellach yn eu defnyddio yn ei waith.

Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr ar raglenni mewn dysgu yn y gweithle neu yn y coleg yn ei chael hi'n anodd derbyn bod angen cymorth medrau sylfaenol arnynt. Yn aml, nid ydynt yn achub mantais ar y cyfleoedd ychwanegol sydd ar gael iddynt, fel ymweliadau â chanolfannau dysgu neu lyfrgelloedd lleol. Mewn un coleg, dim ond hanner y dysgwyr hynny y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt a'u cymerodd y llynedd. Mae'r darparwyr gorau yn mynd i'r afael â hyn trwy sicrhau bod y cymorth medrau sylfaenol yn cael ei gynnwys yng ngweithgareddau pob dydd a gwaith cwrs arall y dysgwyr. Yn yr achosion hyn, mae'r staff uwch yn monitro'r gwaith hwn yn ofalus i sicrhau bod y dysgwyr yn cael mynediad priodol i gymorth medrau sylfaenol.

8 Y rhwystrau sy'n atal y dysgwyr hyn rhag cael mynediad i gwricwlwm priodol a chymorth digonol

Ceir rhwystrau arwyddocaol sy'n gallu atal integreiddio'r dysgwyr hyn yn effeithiol i feysydd galwedigaethol y coleg a hyfforddiant yn y gweithle. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Diffyg llinellau cyfathrebu clir a chyfnewid gwaith gwybodaeth yn effeithiol yn erbyn cynnig cymorth priodol ar gyfer yr holl ddysgwyr.

Mewn ysgolion, mae dysgwyr y nodwyd bod ganddynt namau yn cael y fantais o gynlluniau addysg unigol gyda thargedau clir i arwain eu cynnydd. Caiff y rhain eu hadolygu a'u cofnodi'n rheolaidd. Os bydd dysgwr yn aros ymlaen yn ei ysgol, mae gan ei athrawon fynediad llawn i'w hanes addysgol a'r strategaethau sy'n gweithio'n dda i'w ymrwymo yn ei ddysgu. Fodd bynnag, nid yw'r darparwyr ôl-16 bob amser yn cael y wybodaeth werthfawr hon. Gall hyn rwystro cynllunio effeithiol a chwricwlwm a chymorth priodol ar gyfer yr holl ddysgwyr.

Weithiau, mae'r darparwyr yn amharod i gyfnewid gwybodaeth gyda'i gilydd. Y rheswm am hyn yw bod rhai darparwyr yn ystyried eu bod yn cystadlu ag eraill, er enghraifft ysgolion gyda cholegau a cholegau gyda darparwyr dysgu yn y gweithle.

Lle mae'r dysgwyr wedi cael datganiadau o anghenion addysgol arbennig neu wedi cael cymorth ychwanegol trwy weithredu gan yr ysgol a mwy a gweithredu gan yr ysgol, ceir cyfoeth o wybodaeth bwysig yn ymwneud â'u profiad a'u hanghenion addysgol. Mae'r dysgwyr hyn wedi cael y fantais o gynlluniau addysg unigol. Fe'u defnyddir i gofnodi strategaethau i helpu'r dysgwr i symud ymlaen. Mae athrawon mewn ysgolion yn casglu ac yn cofnodi cryn dipyn o wybodaeth am anghenion, galluoedd a diddordebau'r dysgwyr hyn ac mae ganddynt wybodaeth gynhwysfawr amdanynt. Caiff y gwaith a'r wybodaeth hon eu gwastraffu os na chânt eu trosglwyddo a'u defnyddio gan y darparwr nesaf. Mae'r arfer hon o beidio â throsglwyddo gwybodaeth yn gwrthdaro â dyhead Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithwyr proffesiynol gydweithio i wella'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

Mewn un achos, gwrthododd ysgol drosglwyddo datganiad dysgwr, gan nodi'r Ddeddf Diogelu Data fel y rheswm. Mewn achosion eraill, mae'r darparwyr yn cael y wybodaeth, ond mae'n rhy hen i fod o ddefnydd. Er enghraifft, daeth rhiant a oedd yn mynychu cyfweliad yn y coleg lleol gyda'i mab ag adroddiad yn canfod ei ddyslecsia pan oedd yn ddeg oed. Yn yr achos hwn, nid oedd y coleg wedi cael unrhyw wybodaeth fwy diweddar gan yr ysgol. Cafodd dysgwr arall ffisiotherapi dair gwaith yr wythnos yn ei ysgol arbennig. Ni throsglwyddwyd y wybodaeth hon i'r coleg, ac felly roedd y coleg yn anymwybodol o'r angen i wneud trefniadau i hyn barhau.

Weithiau, pan fydd y datganiadau'n cyrraedd o'r diwedd, maent yn llungopïau o lungopi a/neu yn annealladwy oherwydd nad ydynt wedi cael eu teipio. Weithiau, dyma oedd yr achos hefyd gyda dogfennau cyfeirio Careers Skillbuild.

Pan na chaiff gwybodaeth a gafwyd gan brofi diagnostig ei throsglwyddo, gall arwain at ddyblygu profion yn ddiangen. Dyma ddefnydd gwael o adnoddau cyfyng. Nid yw un cwmni dysgu yn y gweithle bob amser yn cael canlyniadau arf Asesu Cychwynnol yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol gan Gyrfa Cymru ar gyfer ei ddysgwyr paratoadol. Dylai'r broses gael ei chynnal gan Gyrfa Cymru cyn y cyfweliad gan y darparwr dysgu yn y gweithle. Ni chaiff y wybodaeth hon ei throsglwyddo i ddarparwyr Gyrfa Cymru bob amser. Golyga hyn bod y darparwyr yn asesu'r dysgwyr eto. Mae hyn nid yn unig yn ddiangen ond mae hefyd yn rhoi gormod o bwysau ar y dysgwr a chaiff amser gwerthfawr ei wastraffu.

Er bod Gyrfa Cymru yn aml yn gwneud crynodebau ysgrifenedig gofalus o anghenion a galluoedd y dysgwyr pan fyddant yn gadael yr ysgol, nid yw hyn mor ddefnyddiol â'r cofnodion gwirioneddol gan ysgol y dysgwr. Heb y cofnodion hyn, gall y darparwyr dreulio cryn dipyn o amser ac adnoddau

diangen yn canfod anghenion a galluoedd y dysgwyr pan fydd y wybodaeth ar gael yn barod. Mewn rhai achosion, pan fydd ymgynghorwyr Gyrfa Cymru'n cyfeirio dysgwyr at ddarparwyr dysgu yn y gweithle, mae'r darparwr yn cael crynodeb o ddiddordebau'r dysgwr a'r rhesymau dros eu hatgyfeirio, ond yr unig gyfeiriad a geir at unrhyw ddatganiad blaenorol yw blwch wedi'i dicio ar y crynodeb. Nid oes sôn am weithredu gan yr ysgol a mwy neu weithredu gan yr ysgol ar y ffurflen. Unwaith eto, gwastraff amser ac adnoddau yw hyn gan fod yn rhaid i'r darparwr geisio'r datganiad gan yr ysgol.

Mae'r cyfnewid gwybodaeth wael hwn yn destun pryder, gan y gallai olygu nad yw'r dysgwyr yn cael y cymorth y mae hawl ganddynt ei gael ac y mae angen iddynt ei gael i lwyddo. Mae hyn yn gweithio yn erbyn cynnig cyfle cyfartal ar draws y sector ôl-16.

Os nad oes gwybodaeth yn cyd-fynd â'r dysgwr a bod y dysgwr yn dewis peidio â datgelu unrhyw anghenion ychwanegol, ni all y darparwyr ofyn i ELWa am nawdd ychwanegol yn gynnar. Os daw'r anghenion ychwanegol hyn i'r amlwg yn nes ymlaen, gall y darparwyr wneud cais, ond mae'n golygu y bu oedi diangen. Yn ystod yr amser hwn, mae'r dysgwyr yn debygol o fod yn hynod agored i niwed. Heb y cymorth angenrheidiol, gallai'r dysgwr fynd yn isel ei gymhelliant a cholli diddordeb yn ei gwrs.

- Anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth rhwng dysgwyr sydd wedi cael cymorth yn gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy a'r dysgwyr hynny gyda datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Ceir gormod o amrywiaeth rhwng AALlau yng Nghymru yng nghanran y disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig. [3] Mae gan ddysgwyr â datganiadau mewn rhai ardaloedd lefelau tebyg iawn o angen i ddysgwyr heb ddatganiadau mewn mannau eraill. Mae'r holl awdurdodau â chanran isel o ddatganiadau, o gymharu â chyfartaledd Cymru, yn ne-ddwyrain a de-orllewin Cymru. Golyga hyn fod mwy o ddysgwyr ar weithredu gan yr ysgol a mwy a gweithredu gan yr ysgol yn yr ardaloedd hyn. Nid yw'r dysgwyr hyn yn elwa ar asesiad ysgrifenedig o'u hanghenion hyfforddiant gan ymgynghorwyr Gyrfa Cymru. Mae gan ddysgwyr mewn ysgol â datganiadau o anghenion addysgol arbennig hawl statudol i asesiad trylwyr ac ysgrifenedig o'u hanghenion hyfforddiant gan ymgynghorydd gyrfaoedd, er mwyn cydymffurfio ag Adran 140 y Ddeddf Dysgu a Sgiliau. Fodd bynnag, nid yw'r sawl heb ddatganiadau ond a osodir ar weithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy yn cael y fantais o'r asesiad hwn.

- Cyfyngiadau o ran amser ac adnoddau

[3] Arfer Orau wrth ddatblygu datganiadau o anghenion addysgol arbennig ac ysgolion yn cyflwyno'r camau y cytunwyd arnynt. Estyn 2004

Ym mron yr holl ddarpariaeth, rhydd yr athrawon sylw da i anghenion unigol y dysgwyr. Fodd bynnag, mae hyn yn mynd yn ddefnydd drud o adnoddau staff lle mae'r dysgwyr oddi ar y safle ac mewn lleoliadau gwaith (ac nid yw hyn fel rheol yn denu nawdd ychwanegol). Mae hwn yn fater penodol pan fydd darparwyr yn destun toriadau sylfaenol i'r gyllideb gan ELWa ac yn ceisio'n galed i arbed costau.

Lle gofynnir i ddysgwyr mewn lleoliadau gwaith ddod i'r coleg, neu i'r llyfrgell leol i gael cymorth medrau sylfaenol, mae hyn fel rheol yn amser rhydd y dysgwr ac ni chaiff ei gefnogi gan gyflogwyr. Mae'n rhaid i'r dysgwyr sy'n mynd i'r sesiynau hyn wneud hynny ar ben eu hwythnos waith. Mae hyn yn anghymhelliad, yn enwedig lle mae'r dysgwr eisoes yn amharod i gyfaddef yr angen am gymorth ychwanegol.

Mae'r amser a ganiateir ar gyfer dysgwyr mewn dysgu yn y gweithle ar raglenni Skillbuild yn rhy fyr i alluogi mynd i'r afael â'u holl anghenion. Mae'r cymhwyster medrau sylfaenol i oedolion newydd yn gofyn am fwy o amser i gyflwyno, nid llai. Yn ogystal, ceir cyfyngiadau newydd ar nifer y cymwysterau y gall dysgwyr gael eu hariannu ar eu cyfer. Gall hyn arwain at ddysgwyr yn cael eu cyfyngu i'r cymwysterau uchaf yr ystyrir eu bod yn hyfedr i'w gwneud, yn hytrach na magu hyder a hunan-barch trwy eu galluogi i lwyddo gyntaf ar lefelau is a mwy priodol.

Cyfyngir ar amser y rhaglenni presennol a ariennir gan ELWa (o fis Medi 2004) ac fe'u targedir at gymwysterau. Mae darparwyr hyfforddiant yn aml yn ceisio estyniadau er mwy rhoi amser ychwanegol i'r dysgwyr gyflawni'r cymwysterau hyn. Fodd bynnag, mae ymgynghorwyr gyrfaoedd yn gofyn am dystiolaeth glir o'r cymorth ychwanegol y mae'r darparwr wedi'i roi i'r dysgwr ardystiedig. Heb y dystiolaeth hon, maent yn methu argymell estyniad. Golyga hyn, mewn rhai achosion, gellir gwrthod yr amser a'r cymorth ychwanegol y mae eu hangen ar ddysgwyr i gael mynediad i ddysgu priodol.

- Nawdd ac arbenigedd cyfyng i addysgu medrau sylfaenol

Mae ELWa yn disgwyl i golegau a darparwyr dysgu yn y gweithle i nodi anghenion medrau sylfaenol y dysgwyr. Er bod gan y darparwyr fwy o ymwybyddiaeth o'r angen am gymorth medrau sylfaenol da, ceir pryder nad oes ganddynt bob amser y gallu i ddelio â'r holl anghenion medrau sylfaenol a nodwyd. Mae nawdd cyfyng ar gael ar gyfer cymorth medrau sylfaenol. Nid yw'r nawdd ychwanegol y gellir cael mynediad iddo yn cael ei ddiogelu o reidrwydd, fe'i nodir yn glir ar gyfer medrau sylfaenol ac mae'n aml yn nawdd tymor byr. Yn ogystal, ceir prinder cenedlaethol o staff medrau sylfaenol cymwys.

- Dryswch ynghylch nawdd un-i-un a phwy ddylai dalu am brofion diagnostig ar gyfer dyslecsia

Nid yw dyslecsia bob amser yn cael ei ganfod cyn i ddysgwr gyrraedd coleg neu ddarparwr dysgu yn y gweithle. Er mwyn i'r darparwyr gael

nawdd ychwanegol, mae angen prawf diagnostig ar y dysgwyr. Mae'r profion hyn yn ddrud. Gall y darparwyr hawlio am gyfraniad gan ELWa tuag at yr asesiad. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw'r darparwyr yn glir ynghylch pwy ddylai dalu am yr asesiad hwn.

9 Materion allweddol i weithredu arnynt

Er bod y ddarpariaeth yn gyffredinol dda, ceir gormod o rwystrau arwyddocaol i ddysgwyr sy'n cael eu hawl i gyfle cyfartal. Ar gyfer cynnydd pellach ar lefel genedlaethol, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Gyrfa Cymru a'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa ystyried, lle bo'n briodol:

- rhoi sylw brys i wella llinellau cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth rhwng AALlau, ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gweithle;
- egluro cyfrifoldebau'r darparwyr mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data a rhannu cofnodion ysgol y dysgwyr;
- trefnu bod datganiadau o anghenion addysgol arbennig a dogfennau'n ymwneud â gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy yn dilyn dysgwyr yn awtomatig ar hyd eu darpariaeth addysg a hyfforddiant;
- cryfhau'r trefniadau ar gyfer cymorth iechyd ar draws y ddarpariaeth ôl-16, gan gynnwys y gwasanaethau iechyd meddwl;
- gwella'r cysylltiadau rhwng cwmnïau Gyrfa Cymru a'r holl ddarparwyr ôl-16 ac ansawdd holl atgyfeiriadau Gyrfa Cymru;
- ymestyn yr asesu gan ymgynghorwyr Gyrfa Cymru i'r dysgwyr hynny ar weithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy;
- sicrhau bod darparwyr hyfforddiant yn cadw cofnodion cynhwysfawr o'r cymorth ychwanegol a roddir i ddysgwyr;
- adolygu'r nawdd ar gyfer cymorth mewn lleoliadau gwaith;
- monitro'r effaith ar ddysgwyr o'r newidiadau i fframweithiau ELWa ar gyfer dysgwyr ar raglenni dysgu yn y gweithle;
- adolygu'r nawdd sydd ar gael ar gyfer addysgu medrau sylfaenol; a
- rhoi arweiniad clir ar nawdd un-i-un ar gyfer cymorth dyslecsig ac egluro pwy ddylai dalu am brofion diagnostig ar gyfer dyslecsia.

Wrth ddarparu ar gyfer yr holl ddysgwyr, dylai darparwyr ôl-16:

- barhau i godi ymwybyddiaeth pawb o faterion anabledd a chyfle cyfartal;

- rhoi mwy o ystyriaeth i ddysgu blaenorol y dysgwyr wrth gynllunio'u rhaglenni;

- gwella casglu a defnyddio data ar gyrchfannau a chanlyniadau dysgwyr mewn cyflogaeth a hyfforddiant;

- sicrhau nad yw'r dysgwyr eisoes wedi cwblhau rhaglenni ysgogol gyda darparwr arall;

- annog yr holl athrawon i gymryd cyfrifoldeb ar gyfer cefnogi'r holl ddysgwyr;

- parhau i ddatblygu rhaglenni ar gyfer dysgwyr sy'n medru'r Gymraeg i wella'u medrau yn y ddwy iaith a gwneud pob ymdrech i recriwtio cynorthwywyr cymorth dysgu sy'n medru'r Gymraeg;

- rhoi mwy o gyfleoedd i athrawon ddysgu am strategaethau rheoli ymddygiad;

- sicrhau bod yr holl athrawon yn gosod gwaith heriol yn unol ag anghenion a galluoedd y dysgwyr; a

- dod o hyd i ffyrdd o ymgorffori cymorth medrau sylfaenol i'r holl raglenni.

Wrth ddarparu ar gyfer yr holl ddysgwyr, dylai darparwyr dysgu yn y gweithle:

- gydnabod yr angen i annog dysgu gydol oes a datblygu diddordebau'r dysgwyr;

- cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol i ddysgwyr;

- cofnodi'n ofalus y cymorth a roddir i ddysgwyr; a

- gweithio'n agosach gyda rhieni/gofalwyr a'r sector gwirfoddol i nodi a chynnig cymorth priodol i ddysgwyr.

Wrth weithio gyda phartneriaid, dylai'r darparwyr:

- weithio'n agosach gyda Gyrfa Cymru, CCAH a PPIau i ehangu'r cyfleoedd ar gyfer dysgwyr.

Atodiad 1.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos pwysigrwydd magu hyder y dysgwr ochr yn ochr â chynnig achredu priodol.

Astudiaeth Achos 1

Dysgwr yn ennill achrediad ac yn cael mwy o hyder.

Ymunodd dysgwr â Skillbuild, yn adran dysgu yn y gweithle Coleg Llandrillo, ar ôl bod yn aflwyddiannus wrth gael cymwysterau ffurfiol yn yr ysgol. Roedd ganddo hunan-barch gwael iawn. Deillia'i ddiffyg hyder o gael ei fwlio yn yr ysgol. Roedd ei ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer dyslecsia. Teimlai fod gwaith ysgrifenedig a chymdeithasu'n hynod anodd. Asesodd ei ymgynghorydd gyrfaoedd ef fel un 'nad yw'n barod i weithio'. Yn ystod ei gwrs Skillbuild, cafodd gymorth un-i-un a chymorth grŵp bach. Roedd hyn yn gwneud iddo deimlo'n llai dan fygythiad ac felly aeth yn fwy hyderus. O ganlyniad, enillodd dystysgrifau mewn llythrennedd a rhifedd, TG a medrau allweddol. Yn ogystal, mynychodd leoliad gwaith yn y gymuned lle enillodd gymwysterau ychwanegol mewn Medrau Bywyd. Chwaraeodd rôl allweddol wrth greu cylchgrawn cyntaf Skillbuild a chymerodd ran mewn cyflwyniad lle siaradodd o flaen Llywodraethwyr y Coleg. Roedd hwn yn gyflawniad personol mawr iddo. Ar ôl ennill nifer o gymwysterau (a ffrindiau) penderfynodd yr hoffai barhau gyda TG. Yn ddiweddarach, aeth ymlaen i ennill CGC lefel 2 mewn TG ar ôl gadael rhaglen Skillbuild. Yn ogystal, roedd yn fyfyriwr y flwyddyn y flwyddyn honno. Dyma'r ffactorau allweddol yn ei lwyddiant:

- cymorth grŵp bach un-i-un;
- lleoliad gwaith llwyddiannus;
- cyfleoedd i achredu; a
- chymryd rhan yng ngweithgareddau'r coleg.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos yr ymrwymiad ac yn aml y trefniadau arloesol y mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn eu gwneud i helpu dysgwyr gael medrau newydd.

Astudiaeth Achos 2

Ennill medrau newydd a phwysig.

Mae dysgwraig fyddar yng Ngholeg Sir Benfro'n cael cymorth arloesol i lwyddo yn ei phrawf gyrru. Mae hi'n gweithio ar ei phrawf theori yn y coleg ac mae cynorthwyydd cymorth dysgu yn mynd gyda hi yn ystod ei gwers yrru i ddehongli ar gyfer yr hyfforddwr. Mae'r cynorthwyydd cymorth dysgu wedi dylunio ac wedi gwneud deial ar gyfer y forden flaen. Golyga hyn y gall yr hyfforddwr ddefnyddio'r deial i nod i ba lwybr mae am i'r ddysgwraig ei gymryd ar gylchfan. Dyma'r ffactorau allweddol yn llwyddiant y ddysgwraig;

- cymorth personol;
- adnoddau wedi'u teilwra; a
- chynnwys cwrs perthnasol.

Mae'r ddwy astudiaeth achos canlynol yn rhoi enghreifftiau da o fonitro'r cymorth y mae dysgwyr yn ei gael yn ofalus.

Astudiaeth Achos 3

Monitro mewnol i sicrhau y caiff anghenion y dysgwyr eu bodloni

Gwna Coleg Sir Benfro ddefnydd da o gytundeb dysgu dysgwyr unigol CDDU cynhwysfawr. Mae'r staff yn sicrhau bod y cymorth astudio y cytunwyd arno ar waith. Mae gofyn i diwtoriaid archwilio CDDU eu dysgwyr a chadarnhau bod y dysgwr yn cael y cymorth a gytunwyd arno. Mae'r staff uwch yn monitro'r broses hon yn ofalus.

Yn ogystal, mae staff Hyfforddiant Gogledd Cymru yn archwilio cynlluniau dysgu unigol yn fewnol i sicrhau eu bod yn nodi'n gywir anghenion y dysgwyr a bod y rhain yn cael eu bodloni. Dyma'r ffactorau allweddol mewn monitro mewnol llwyddiannus;

- defnydd da o CDDUau i nodi anghenion cymorth;
- archwilio CDDUau yn rheolaidd; ac
- ymglymiad staff uwch.

Astudiaeth Achos 4

Sicrhau bod y dysgwyr yn cael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo

Mae Coleg Llandrillo wedi nodi'r angen i sicrhau bod dysgwyr yn cael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo. I fynd i'r afael â hyn, creodd y coleg yn ddiweddar swydd newydd ddefnyddiol sef swyddog Medrau ar gyfer Bywyd. Rôl y swyddog yw cynnig cyswllt effeithiol rhwng meysydd rhaglen a meysydd galwedigaethol. Ei rôl yw cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am nawdd a chymorth ychwanegol oherwydd eu hanawsterau a'u hanableddau dysgu i'r eithaf. Mae hi'n gyfrifol am fentrau i godi ymwybyddiaeth yr athrawon, ar draws y coleg, i gyfleoedd cymorth dysgu a sut y gellir cael mynediad iddynt. Mae hi'n sicrhau y caiff ceisiadau am gymorth eu llenwi'n briodol a bod y dysgwyr yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen gan staff y coleg. Dyma'r ffactorau allweddol yn llwyddiant y fenter:

- parodrwydd i edrych ar atebion newydd;
- pryder ynghylch dysgwyr; ac
- dull llawn dychymyg.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos sut mae un coleg yn cefnogi ei staff fel y gallant gynnig cymorth cynhwysfawr i ddysgwyr.

Astudiaeth Achos 5

Cymorth canolog da ar gyfer y sawl sydd mewn cysylltiad â dysgwyr

Yng Ngholeg Llandrillo, mae'r uned cymorth canolog yn gweithredu fel siop-un-cam ar gyfer y sawl sydd mewn cysylltiad rheolaidd â dysgwyr (naill ai yn y coleg neu yn y gweithle). Gall tiwtoriaid ac aseswyr gyfeirio at yr uned cymorth canolog am gyngor ac ymyriad. Bydd yr uned hefyd yn gweithredu fel brocer gydag asiantaethau allanol pan fydd hyn yn briodol i anghenion y dysgwr. Dyma'r ffactorau allweddol yn llwyddiant y cymorth canolog:

- cyswllt rheolaidd;
- cymorth ar gael ar gyfer staff; a
- mynediad ar gyfer dysgwyr i asiantaethau allanol pan fydd angen.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos ymarfer gynhwysol y rhwydwaith dysgu 14-19 newydd.

Astudiaeth achos 6

Gweithio'n gynhwysol ac mewn partneriaeth, i wella'r ddarpariaeth leol.

Yng Ngwynedd mae'r bartneriaeth rhwydwaith 14-19 oed yn cymryd ymagwedd gynhwysol. Mae'n dechrau gwella'r ddarpariaeth ar gyfer yr holl ddysgwyr. Er bod y rhwydwaith hwn wedi canolbwyntio'i ymdrechion hyd yma ar ddysgwyr 'sydd wedi ymddieithrio', mae'n cynnwys yr holl ddysgwyr. Mae'r datblygiadau'n cynnwys:

- trefniadau ar gyfer profiad gwaith estynedig;
- cais llwyddiannus i redeg cynllun mentora prawf;

cais llwyddiannus i sefydlu cynlluniau ar gyfer profiad gwaith efelychiadol a arweinir gan Gyrfa Cymru ac a gyflwynir mewn colegau lleol a chyda chyflogwyr. Yr her ar hyn o bryd yw sut i efelychu ardaloedd risg uwch, fel safleoedd adeiladu. Mae galw mawr am y profiad gwaith hwn ymhlith dysgwyr.

Dyma'r ffactorau allweddol yn llwyddiant y ddarpariaeth leol hon;

- ymagwedd gynhwysol; a
- gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r ddwy astudiaeth achos canlynol yn dangos sut gall gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol roi cyfleoedd i ddysgwyr yn y gymuned i godi eu hyder a chynnig cymorth ychwanegol iddynt.

Astudiaeth achos 7

Gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i wella cyfleoedd ar gyfer dysgwyr a magu eu hyder

Mae gan Goleg Sir Benfro bartneriaeth gref a chynhyrchiol gydag Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru. Mae hwn yn gyswllt da iawn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal rhaglen haf ar gyfer dysgwyr sydd ar fin dechrau yn y coleg. Gan weithio fel tîm bach, mae'r dysgwyr yn ymgymryd â heriau a ddyluniwyd i gynyddu eu hyder. Mae hyn mewn ymateb i'r pryder y gall cyfnod yr haf, rhwng gadael yr ysgol a dechrau yn y coleg, olygu colli arfer

bwysig. Mae hyn yn cynnwys codi'n gynnar a chyrraedd ar amser.
Dyma'r ffactorau allweddol yn llwyddiant y fenter hon:

- dysgwyr yn gweithio mewn timau bach;
- cynyddu hyder; a
- chynnal arfer.

Astudiaeth achos 8

Gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i wella cyfleoedd ar gyfer dysgwyr a magu eu hyder

Mae gweithiwr ieuenctid o dîm gweithredu ieuenctid yr AALl yn ymweld yn rheolaidd â Choleg Sir Benfro. Ei rôl gyda'r AALl yw cefnogi cynhwysiad plant a phobl ifanc anabl 11-25 oed. Mae mwyafrif y dysgwyr hyn yn y coleg yn 16-22 oed. Gwna'r gweithiwr dipyn o waith ar faterion a wynebir gan y dysgwyr. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â fforwm ieuenctid Cymorth. Defnyddia'r fforwm y coleg fel canolfan ar gyfer gwaith ymgynghorol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae dysgwyr o'r grŵp hwn yn cynrychioli Sir Benfro ar Rwydwaith Cymru Gyfan ar gyfer Pobl Ifanc Anabl. Gwna'r coleg ddefnydd da o'r gweithiwr hwn pan fydd angen eiriolwr arnynt ar gyfer dysgwr.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn enghraifft dda o ddarparwr dysgu yn y gweithle yn gwneud trefniadau hyblyg i weddu i ofynion personol y dysgwyr.

Astudiaeth achos 9

Trefniadau hyblyg yn y gweithle yn bodloni anghenion y dysgwyr

Yn adran hyfforddiant yn y gweithle Coleg Llandrillo, mae mwyafrif yr hyfforddi a'r asesu yn seiliedig ar waith ac wedi'u dylunio i fodloni anghenion dysgwyr a'u cyflogwyr. Mae'r coleg yn datblygu dulliau mewn peirianneg a pheirianneg cerbydau modur sy'n golygu blwyddyn gychwynnol i ffwrdd o'r gwaith wedi'i dilyn gan gyfnodau dilynol mewn lleoliad/cyflogaeth. Golyga'r dull hwn fod dysgwyr yn cael cefndir cadarn cyn symud ymlaen i waith. Yn ogystal, mae'n galluogi'r coleg i gael yr hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer anghenion ychwanegol y dysgwyr. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i ddechrau rhaglenni ac i weld a allant wneud digon o gynnydd i fynd ymlaen i leoliad gwaith.
Dyma'r ffactorau allweddol yn llwyddiant y trefniadau hyn:

- bodloni anghenion unigol;
- ymagwedd hyblyg; a
- gweithio'n agos gyda chyflogwyr.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos manteision ymagwedd arloesol i'r cwricwlwm i'r staff a'r dysgwyr.

Astudiaeth achos 10

Cynnig cwricwlwm priodol a pherthnasol i weddu i bob dysgwr.

Yn ddiweddar, cyflwynodd Coleg Sir Benfro gwrs wedi'i deilwra, sef 'cyfrif i lawr i gyflawniad'. Mae'r cwrs ysgogol hwn ar lefel sylfaen, ar gyfer dysgwyr 16-19 oed, nad oes ganddynt y cymwysterau na'r hyder i symud ymlaen i gyrsiau uwch. Mae'r cwrs yn cynnwys nifer o ddyfarniadau Rhwydwaith y Coleg Agored mewn gweinyddiaeth fusnes, hamdden a thwristiaeth.

Mae tair lefel i'r cwrs. Golyga hyn y gall y dysgwyr weithio yn ôl eu cyflymder eu hunain ac ar eu lefel eu hunain. Maent yn cael cyfleoedd da i gael mynediad i sesiynau rhagflas mewn meysydd galwedigaethol eraill fel arlwyo, trin gwallt a lletygarwch.

Mae gan hanner y dysgwyr ar y cwrs anghenion cymorth. Nodwyd y rhain yn sgrinio cychwynnol y coleg, er nad oes gan yr holl ddysgwyr ddatganiadau. Mae'r dysgwyr yn cael cymorth ychwanegol gyda medrau sylfaenol ac allweddol. Fel rheol, mae'r athrawon sydd ynghlwm wrth y cwrs hwn yn gweithio mewn meysydd galwedigaethol. Mae addysgu ar y cwrs hwn yn golygu bod staff meysydd galwedigaethol yn dysgu mwy am yr angen i gyfateb gwaith y dysgwyr yn ofalus i'w gallu a defnyddio gwaith cyd-destunol. Mae'r athrawon hyn yn adrodd yn ôl i'w cydweithwyr yn eu meysydd galwedigaethol. Mae hyn o gymorth i godi ymwybyddiaeth y staff ynghylch sut i gyfateb gwaith i alluoedd y dysgwyr. Mae'r dysgwyr yn mwynhau'r cwrs ac yn gwneud cynnydd da.
Dyma'r ffactorau allweddol yn llwyddiant y cwrs:

- achredu priodol gyda dewis o lefelau;
- sgrinio cychwynnol gofalus;
- cymorth ychwanegol gyda medrau sylfaenol;
- cysylltiadau cryf ar draws y coleg;
- cyfateb gwaith i allu.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn enghraifft o ysgolion yn cydweithio i gynnig dewis ehangach o gyrsiau priodol i ddysgwyr.

Astudiaeth achos 11

Cynnig ystod briodol o opsiynau yn Ôl-16 i weddu i anghenion a galluoedd yr holl ddysgwyr.

Mae Ysgol Uwchradd Syr Hugh Owen, Gwynedd, wedi cynnig ystod eang o gyrsiau yn Ôl-16. Cynigir pynciau mewn pedwar bloc o opsiynau i roi mwy o ddewis i'r dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys opsiynau uwch gyfrannol ac uwch academaidd a chyrsiau galwedigaethol i fodloni anghenion, galluoedd a diddordebau amrywiol y dysgwyr. Cynigir y blociau o opsiynau ar ffurf sy'n rhoi'r dewisiadau mwyaf i'r dysgwyr ac mae modd cyfuno opsiynau uwch

gyfrannol ac uwch a chyrsiau galwedigaethol; mae'r trefniant hwn yn werthfawr. Yn ogystal, ym mlwyddyn 12, gall y dysgwyr ddewis ymuno â grwpiau medrau allweddol achrededig mewn cyfathrebu, cymhwyso rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Dilyna'r holl ddysgwyr gwrs mewn chwaraeon ac addysg gorfforol a cheir cwrs addysg bersonol a chymdeithasol ym mlwyddyn 12. Yn ogystal, mae'n bosibl astudio drama ac electroneg trwy drefniadau consortiwm arbennig. Mae'r hyblygrwydd hwn yn ei wneud yn bosibl i'r holl ddysgwyr aros ymlaen yn eu hysgol ac ennill cymwysterau priodol, os ydynt yn dymuno.
Dyma'r ffactorau allweddol yn llwyddiant y fenter hon:

- rhoi'r dewisiadau mwyaf posibl i'r dysgwyr;
- bodloni anghenion a diddordebau'r dysgwyr; a
- gweithio gydag ysgolion eraill.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos sut mae darparwyr yn sicrhau bod lleoliadau gwaith a chyfarpar ansawdd uchel ar gael i weddu i ofynion personol y dysgwyr.

Astudiaeth achos 12

Rhoi mynediad da i leoliadau gwaith o ansawdd i ddysgwyr a darparu cyfarpar priodol.

Cyfeiriodd ymgynghorydd Gyrfa Cymru ddysgwr gyda pharlys yr ymennydd at ddarparwr dysgu yn y gweithle Dinas a Sir Abertawe. Roedd gan y dysgwr hawl i amser ychwanegol i gwblhau ei gynllun dysgu unigol oherwydd ei anabledd. Diogelodd y darparwr hwn leoliad gwaith diddorol yn un o adrannau'r awdurdod. Gwnaeth y darparwr drefniadau arbennig i gasglu'r dysgwr o'i gartref fel y gallai ddod i'r lleoliad hyfforddiant. Fe'i lleolwyd gydag adran drafnidiaeth Neuadd y Sir. Yn y diwedd, cyflawnodd CGC lefel 2 mewn TG. Gwnaeth yr awdurdod lleol ddefnydd da o nawdd gan y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn cadw'r dysgwr ar ôl iddo gwblhau ei CGC, nes bod swydd a delir ar gael ganddynt. Ar ôl dod yn aelod cyflogedig, defnyddiodd yr awdurdod lleol nawdd arall gan y Ganolfan Byd Gwaith i brynu bysellfwrdd a llygoden priodol iddo. Roedd hyn yn golygu y gallai gwblhau'r un tasgau â chyflogeion eraill. Ar hyn o bryd, mae'n parhau gyda'r darparwr dysgu yn y gweithle er mwyn cyflawni CGC lefel 2 mewn gwasanaethau cwsmeriaid.
Dyma'r ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant:

- gwneud trefniadau arbennig i weddu i anghenion unigol;
- gwneud defnydd da o nawdd gan y Ganolfan Byd Gwaith; a
- defnyddio technoleg gynorthwyol briodol.